



## Prosiect Adfer Porfa Rhos y Gynllun Rheoli Cynaliadwy

Lucy Morton – Rheolwr Prosiect

7 Tachwedd 2022

Mae prosiect Adfer Porfa Rhos yn Gynllun Rheoli Cynaliadwy, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru trwy Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Dechreuodd y prosiect ym mis Ionawr 2021 a daw i ben ym mis Mawrth 2023, dan arweiniad Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed, ac mae yna 2 aelod o staff sy'n gweithio arno'n benodol: Lucy Morton, rheolwr prosiect a Toby Hay, Swyddog y Celfyddydau a Threftadaeth Cymunedol. Mae Rhayader-by-Nature, sef grŵp hanes naturiol lleol, a CARAD (Celfyddydau Cymunedol Rhaeadr a'r Cylch) hefyd yn ein cefnogi.

Gair Cymraeg sy'n disgrifio glaswelltir corsiog gwlyb ydy rhos. Mae'r math hwn o laswelltir hefyd i'w weld mewn rhannau eraill o'r DU, lle mae yna enwau gwahanol arno: 'culm grassland' yn Nyfnaint, 'fen meadow' yn Nwyrain Anglia a 'wet lawns' yn Fforest Newydd. Mae'n gynefin sy'n gyffredin ond ar drai yng Nghymru ac mae wedi'i nodi yn Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 fel cynefin glaswelltir â blaenoriaeth sy'n 3% o'r arwyneb glaswelltir ym Mhowys.

Mae porfa rhos i'w weld ar briddoedd asidig yn bennaf, wedi'u draenio'n wael, ar waelod dyffrynnoedd neu ar ymylon ucheldiroedd, ac mae'n gallu amrywio o ran cyfansoddiad rhywogaethau ond Glaswellt y Gweunydd a rhywogaethau brwyn amrywiol ydy'r prif blanhigion sy'n arwydd ohoni. Mae'n cefnogi cyfoeth o fywyd gwyllt, mae'n cyflenwi gwasanaethau ecosystemau sydd o fydd i'r amgylchedd lleol, (storio carbon, ansawdd a storio dŵr ac iechyd y pridd) ac mae'n ddiwylliannol bwysig gan fod yna gysylltiad rhwng porfa rhos a chrefftau a sgiliau traddodiadol.



*Porfa rhos ym mis Mehefin – mae prysgwydd a gwrychoedd goraeddfed yn elfennau pwysig o'r cynefin hwn*

Dyma brif amcanion prosiect Adfer Porfa Rhos:

Adfer a gwella porfa rhos yn ardal y prosiect

Gwella strwythur y pridd, carbon a storio dŵr

Gwella'r economi leol, ymchwilio i farchnadoedd ar gyfer cynhyrchion a datblygu twristiaeth sy'n gysylltiedig â bywyd gwyllt a ffermio

Datblygu buddion i addysg, iechyd a llesiant, hamdden, y celfyddydau a threftadaeth.

Mae arolygon botaneg ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn wedi'u cynnal dros 2 haf i gadarnhau graddau'r porfeydd rhos, ac ar adeg ysgrifennu'r erthygl hon nid yw'r holl ganlyniadau o'r haf hwn wedi'u derbyn eto, ond y darganfyddiadau cychwynol ydy bod yna ros da helaeth yn yr ardal, sy'n bositif iawn.

Mae rhoi anifeiliaid i bori'n allweddol i reoli porfa rhos, a gwartheg ydy'r porwyr gorau gan eu bod yn creu strwythur llystyfiant amrywiol a byddan nhw'n pori ar y prysgwydd a'r llystyfiant mwy coediog. Mae'r prosiect yn gweithio gyda ffermwyr a thirfeddianwyr yn yr ardal rhwng Rhaeadr Gwy, Nantmel a'r Bontnewydd-ar-Wy, gan annog a chefnogi rhoi gwartheg i bori trwy ddarparu ffensys, llociau gwartheg a chafnau dŵr. Rydyn ni hefyd wedi darparu hyfforddiant ar driniaethau ar gyfer llyngyr yr iau ac ar foddion gwrthlynghyrol, ac rydyn ni'n bwriadu darparu hyfforddiant ar chwilod tail gyda [Dung Beetles for Farmers](#). Y gobaith ydy datblygu cynllun cynhyrchion rhos a blychau cig eidion gan ddefnyddio siop fferm leol sydd newydd agor fel y man adwerthu.



*Gwartheg yn pori ar borfa rhos am y tro cyntaf ers llawer blwyddyn, ffensys newydd a phwll dŵr wedi'i greu ar safle'r un rhos*

Mae defaid wedi bod yn pori ar lawer o'r porfeydd rhos yn ardal y prosiect am lawer o flynyddoedd ac mae hyn wedi golygu bod rhywogaethau blodau gwyllt sy'n gysylltiedig â'r rhos wedi diflannu oherwydd y pori. Mae Tamaid y Cythraul, *Succisa pratensis*, yn un o'r rhain. Dyma'r planhigyn y mae glöyn byw Britheg y Gors yn ei fwyta, sef rhywogaeth a oedd wedi darfod amdani yn y rhan hon o Sir Faesyfed ar ddechrau'r 2000au. Mae'r planhigyn yn blodeuo ar ddiwedd yr haf ac mae'n ffynhonnell neithdar rhagorol pan fo blodau eraill wedi darfod.

Rydyn ni wedi bod yn gweithio i ailsefydlu'r rhywogaeth hon trwy blannu planhigion plwg sydd wedi'u tyfu o hadau lleol gan wirfoddolwyr o Rhayader by Nature. Lle bo defaid dal yn pori, gosodwyd lleiniau wedi'u ffensio i amddiffyn y planhigion ifanc; bydd y gât yn galluogi pori yn y gaef, ond bydd yna reolaeth fecanyddol hefyd hyd nes bydd y planhigion wedi sefydlu.



*Gwirfoddolwyr yn plannu planhigion Tamaid y Cythraul ym mis Mai (uchod ar y chwith), yn blodeuo ym mis Gorffennaf (uchod ar y dde) a phlanhigyn plwg sydd newydd ei blannu! Lluniau: Pam Knight*

Mae yna rai safleoedd rhos sydd heb eu pori ers blynnyddoedd lawr, a llwyddon ni i ddod o hyd i contractwr a allai 'dorri a chasglu' y llystyfiant dwys a oedd yn llethu'r planhigion llai. Torrwyd sribynnau trwy laswellt y gweunydd marw gan wneud pentyrrau o amgylch ymyl y safle. Pan ddychwelwyd ym mis Mehefin, gwelwyd bod Fioled y Gors, y Carwy Droellennog a rhywogaethau eraill wedi ymateb i'r torri a'u bod yn tyfu yn y rhodfeydd.



*A J Butler gyda'r offer torri a chasglu, a Fioled y Gors yn tyfu yn y rhodfeydd oedd wedi'u torri.*

Mae Fioled y Gors yn rhywogaeth hynod o bwysig gan mai dyma ydy'r planhigyn y mae glöyn byw y Fritheg Berlog Fach yn ei fwyta [Y Fritheg Berlog Fach | Cadwraeth Glöynnod Byw \(butterfly-conservation.org\)](http://Y Fritheg Berlog Fach | Cadwraeth Glöynnod Byw (butterfly-conservation.org)). Mae'r larfâu yn bwyta'r dail ar ddiwedd yr haf ac ar ddechrau'r gwanwyn. Cynhaliwyd arolwg o bresenoldeb ac absenoldeb y glöynnod byw llawn dwf yr haf hwn, gan ein bod eisoes yn gwybod bod y fioled i'w chael mewn un neu ddau o safleoedd.



*Y Fritheg Berlog Fach llawn dwf*



*Fioled y Gors Lluniau: Richard Knight*

Mae ochr y Celfyddydau a Threftadaeth Cymunedol o'r prosiect, sydd wedi'i gefnogi gan yr Amgueddfa a'r Oriol yn Rhaeadr Gwy, CARAD, wedi cynnwys llawer o bobl leol, yn amrywio o artistiaid a cherddorion i ecolegwyr arbenigol a chreffftwyr.

Gwnaeth dros 50 o bobl fwynhau 'Yn y Glaswellt Hir' – Gŵyl Porfa Rhos – digwyddiad a gynhaliwyd yn y Glôb Byw ger Llanwrthwl, a oedd yn dathlu'r rhos â theithiau cerdded, cerddoriaeth a gweithgareddau celf. Roedd hefyd yn cynnwys cyflwyniad cyntaf yr Artist Preswyl, Sean Harris, sef 'Clymau Sy'n Cynnal - The Ties that Bind Us', trêr clyweledol barddol.



*Gareth Bonello a Harriet Earis (yn y brif babell), pobl yn ymgynnull ar ddechrau'r digwyddiad (uchod ar y dde) a'r faner roedd Toby wedi'i dylunio!*

Crëwyd Cwilt Cymunedol y Rhos dros nifer o sesiynau yn neuadd y pentref yn Llanllŷr yn Rhos yn ystod gaeaf 2022, gan ddefnyddio planhigion ac anifeiliaid, dŵr a phridd rhos fel ysbrydoliaeth. Daeth â 14 o bobl frwdfrydig at ei gilydd, gan gynnwys 5 o blant ac roedd yn galw am lawer o wahanol sgiliau, gan gynnwys paentio ar ffabrig, batic, llifo a phrintio, brodwaith, appliqué, printio leino a chwiltio â llaw i'w orffen.



*Y Cwilt Cymunedol yn hongian yn llyfrgell Llandrindod, gyda Jane Titley (y pellaf ar y chwith), yr artist fu'n helpu i ysbrydoli'r gwneuthurwyr. Ysgallen y gors (ar y dde), manylyn o'r cwilt Llundain: Toby Hay a Jenny Mottershead*

Mae gwneud basgedi brwyn pabwyr yn un o grefftau traddodiadol porfa rhos; byddai'r basgedi'n cael eu defnyddio i gario mawn, a fyddai'n esbonio pam fod mawngogydd yn enw arall ar rai porfeydd rhos.

Bu Clair Murphy, o Rushmore Baskets, yn arwain gweithdai ar gyfer aelodau Rhayader by Nature.



*Gan gasglu'r brwyn pabwyr ym mis Gorffennaf, mae'n cael ei sychu, ei bannu a'i drochi, cyn gwneud y fasged ym mis Medi*

I gael rhagor o wybodaeth am waith Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed a Phrosiect Porfa Rhos [Ein Prosiectau | Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed \(rwtwales.org\)](#)

Lucy Morton [lucy@rwtwales.org](mailto:lucy@rwtwales.org) Toby Hay [toby@rwtwales.org](mailto:toby@rwtwales.org)



Community Arts Rhayader & District

